

# Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 - 2027

Cafodd y Strategaeth ei hysgrifennu gan **Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**. Dyma fersiwn Hawdd Ei Ddeall o **Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024-2027.**

**Medi 2024**

# Cyflwyniad




Mae hon yn ddogfen hawdd ei ddeall.  Ond efallai bydd angen help arnoch i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd geiriau mewn **print bras glas** yn anodd ei deall. Gallwch edrych ar **dudalen 14** am ystyr y geiriau hyn.

Ble bydd y ddogfen yn dweud '**ni**', mae hyn yn golygu **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**.




Am fwy o wybodaeth ewch i **wefan** y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:

https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/diogelwch-cymunedol/

# Cynnwys

Mudiadau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ........ **t.4**

Am y Strategaeth hon ........ **t.5**

Blaenoriaethau ar gyfer 2024 – 2027 ........ **t.6**

Ein Blaenoriaethau Trosedd ........ **t.7**

Ein Blaenoriaethau Trosedd – Sut byddwn ni'n gwneud hyn ........ **t.8**

Ein Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel ........ **t.9**

Ein Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel – Sut byddwn ni'n gwneud hyn ........ **t.10**

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ar y trywydd iawn? ........ **t.11**

Cysylltwch â ni ........ **t.13**

Geiriau sy'n anodd ei deall ........ **t.14**

# Mudiadau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi eu creu o wahanol sefydliadau.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i leihau trosedd yng Ngheredigion a chadw ein cymunedau yn saff.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Heddlu Police Dyfed Powys

Prawf Cymru Wales Probation

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Tai Wales & West Housing

barcud

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Home Office

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – University of Wales Trinity Saint David

Maritime & Coastguard Agency


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion – Ceredigion Association of Voluntary Organisations (CAVO)

# Am y Strategaeth hon




Llynedd, gofynnon ni i bobl sy'n byw yng Ngheredigion beth oedd yn eu poeni fwyaf am drosedd yn ein sir.



Fe wnaethon ni hefyd edrych ar ba droseddau sy'n digwydd yng Ngheredigion.




Defnyddion ni'r data a beth wnaeth pobl ddweud wrthym ni i greu'r Cynllun. Nod y Cynllun yw amddiffyn cymunedau a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel.

Bydd y Cynllun yn arwain ein gwaith ar hyd y 3 mlynedd nesaf.



Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni cyfres o nodau.

# Blaenoriaethau ar gyfer 2024 – 2027




Mae Ceredigion yn dal i fod yn un o'r llefydd mwyaf saff i fyw ynddi yn y Deyrnas Unedig.

Dangosodd adborth o'r cyhoedd bod teimlo'n saff yn bwysig iawn iddyn nhw.



Gwnaethon ni weld bod pobl weithiau yn poeni am drosedd er nad yw'n digwydd yn aml yn ein sir.




Roeddwn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn lleihau trosedd ond hefyd gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n saff yn eu cymuned.

Byddwn ni'n defnyddio ffyrdd gwahanol o weithio ar hyn.

# Ein Blaenoriaethau Trosedd



Bydd ein blaenoriaeth gyntaf yn edrych ar **fynd i'r afael â Throsedd** yng Ngheredigion.

Byddwn yn canolbwyntio ar –



**1.** Lleihau **troseddau rhyw**.

**2.** Lleihau **trais yn erbyn menywod a merched**.



**3.** Lleihau **cyflenwi cyffuriau'n anghyfreithlon** a **chamddefnyddio sylweddau**.



**4.** Lleihau **trais domestig**, **stelcian** ac **aflonyddu**.

# Ein Blaenoriaethau Trosedd – Sut byddwn ni'n gwneud hyn

Ein nod yw –



Cefnogi gwaith grwpiau cam-drin sylweddau.



Rhannu gwybodaeth ar ymgyrchoedd a gweithgareddau atal trosedd.

Gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth.



Cefnogi gwaith grwpiau sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin rhywiol a domestig.



Gweithio gydag ysgolion, cymunedau a thrigolion.

Cefnogi dioddefwyr a phobl fregus.

# Ein Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel



Bydd ein hail flaenoriaeth yn helpu pobl i **deimlo'n ddiogel** yng Ngheredigion.




Byddwn ni'n canolbwyntio ar –

1. **Dwyn**



2. **Trosedd ar-lein, twyll** a **galw heb wahoddiad**

3. **Difrod troseddol**




4. **Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol**




5. **Gweld presenoldeb yr Heddlu**

# Ein Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel – Sut byddwn ni'n gwneud hyn




Ein nod yw –

Gwneud yn siŵr fod pobl yn gwybod am y Bartneriaeth a'n gwaith ni.



Cefnogi grwpiau i ddatrys problemau a lleihau **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**



Rhannu straeon newyddion da a chyngor i atal trosedd.

Cadw llygad ar densiwn yn y gymuned.



Rhannu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer arweinwyr a phartneriaid yn y gymuned.

Canolbwyntio ar atal.

# Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ar y trywydd iawn?

Mae gennym ni 4 Grŵp a fydd yn cario 'mlaen gyda'n gwaith ni.

Mae'r rhain yn cynnwys –



1. **Grŵp Tactegol** – mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar **waith gweithredol.**




2. **Bwrdd CONTEST** – Bydd y grŵp hwn yn cyflawni Strategaeth **Gwrthderfysgaeth** Llywodraeth y DU.



3. **Bwrdd SVOC** – Bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar drais difrifol, trosedd cyfundrefnol a chamddefnyddio sylweddau.




4. **Grŵp Rheoli Integredig Troseddwyr** – Bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar **leihau troseddu ac ail-droseddu.**

# Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ar y trywydd iawn?




Bydd y grwpiau hyn yn adrodd y gwaith maen nhw'n eu gwneud ym mhob un o gyfarfodydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.




Byddwn ni hefyd yn cael diweddariadau o'r **Tîm Cydlyniant Cymunedol** i wneud yn siŵr ein bod yn cadw'r heddwch yn ein cymunedau.



Mae Partneriaethau yn adrodd nôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.



Rydym wedi creu Traciwr Gweithredu i fonitro ein gwaith.

# Cysylltwch â ni

Cysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth –




**Trwy e-bost** –
partneriaethau@ceredigion.gov.uk
clic@ceredigion.gov.uk



**Dros y ffôn** –
01545 570881



**Neu ysgrifennwch atom ni** –
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion,
Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA




**Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y Strategaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2024-2027.**

# Geiriau sy'n anodd ei deall

**Troseddau Rhywiol** – Gweithred rywiol wedi'i gyfeirio at rywun heb iddynt gytuno iddo.

**Trais yn erbyn menywod a merched** – Trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys niwed i'r corff, rhywiol neu feddyliol.

**Cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon** – Rhoi neu gynnig rhoi cyffuriau anghyfreithlon i rywun.

**Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)** – Defnyddio cyffuriau neu feddyginiaeth anghyfreithlon mewn ffordd nad ydynt i fod i gael eu defnyddio.

**Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)** – Yfed alcohol mewn ffordd sy'n niweidiol.

**Dwyn** – Mynd i mewn i adeilad heb ganiatâd i ddwyn rhywbeth.

**Seiber a Throsedd Ar-lein** – Defnyddio cyfrifiadur i gyflawni gweithgarwch troseddol.

**Galwadau heb wahoddiad** – I ymweld neu ffonio rhywun heb ganiatâd er mwyn gwerthu pethau.

# Geiriau sy'n anodd ei deall

**Difrod Troseddol** – Pan fydd person yn achosi niwed i rywbeth ar bwrpas heb ganiatâd.

**Gweld presenoldeb yr heddlu** – Gweld swyddogion heddlu yn eich ardal chi.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** – Mae person yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cynhyrfu rhywun sydd ddim yn byw gyda nhw.

**Gweithredol** – Gwneud gwaith mewn cymunedau. Terfysgaeth – Trais neu fygythiadau a gyflawnir gan berson neu grŵp sydd â barn wleidyddol gref.

**Lleihau Aildroseddu** – Gweithio gyda phobl sydd yn y carchar i'w helpu i gadw draw o droseddu pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

**Cydlyniant Cymunedol** – Gwneud yn siŵr bod heddwch yn cael ei gadw yn ein cymunedau.

DIOGEL YNG NGHEREDIGION • SAFE IN CEREDIGION •

Caru·Love Ceredigion

*Cydnabyddiaethau:*

Gwnaed y ddogfen Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**
*(Rhif trwydded 5957083791415)*